

A POET IN EVERY PORT

Mae'r Llyfrgell Farddoniaeth Genedlaethol ar daith dros yr haf eleni fel rhan o brosiect *A Poet in Every Port*, ac am ddathlu tafodieithoedd, acenion, geiriau ac ieithoedd amrywiol y DU! Dewch i mewn i bori cyn rhoi cynnig ar ysgrifennu eich cerdd eich hun.

Llunio cerdd Cyfnewid Geiriau

Mae 'na gerdd ym mhawb, dim ond i chi roi pin ar bapur a gadael iddi lifo.

Cerddi byrion sy'n dathlu geiriau, ymadroddion, ieithoedd, acenion a thafodieithoedd eich ardal chi yw cerddi Cyfnewid Geiriau. Bydd y 'cyfnewid' yn digwydd pan fyddwch chi'n:

- Cymharu geiriau y byddwch chi'n eu defnyddio â geiriau y bydd rhieni, gofalwyr, neiniau a theidiau neu bobl iau yn eu defnyddio.
- Myfyrio ar y geiriau rydych chi'n eu defnyddio sydd wedi eu trosglwyddo gan genedlaethau a fu.
- Adfywio geiriau anghyfarwydd o'r gorffennol trwy eu defnyddio mewn gwaith llenyddol newydd. Mae cerdd Cyfnewid Geiriau yn cydnabod fod eich tafodiaith chi yn rhan o hanes iaith.
- Meddwl am y geiriau newydd rydych wedi eu darganfod yn fwy diweddar.

Llysgennad A Poet in Every Port yw'r bardd amlwg a phoblogaidd o Lerpwl, Roger McGough – dyma'i gynnig o ar gerdd Cyfnewid Geiriau, er mwyn eich ysbrydoli i roi tro ar greu un:

Barddoniaeth, y 'sgodyn mawr yn y Pool of Life Roger McGough, wedi'i gyfieithu gan Iestyn Tyne

A ni ddylai wybod, ni ddyfeisiodd y gair,
fel kecks, cob ons, a'r Liver Bird

Antwacky, clobber, bevvy a sliced bread,
Footy wrth reswm – y Gleision a'r Cochion,

Scallywags, woolybacks, scan a whoppers
Jiggers, blerts, a bizzies, sef copars,

Mae'n nesh, mae hi'n baltic, yn chucking it down
felly ta-ra am rwan, I'll see yiz round town.

*Ddaru chi fwynhau, oedd y geiriau'n byrlymu?
Gall tafodieithoedd fod yn hwyl – rhowch gynnig arni!*

Gweithgareddau i gynhesu (dewiswch o leiaf un):

- Taflu tafodiaith: Ysgrifennwch gymaint ag y gallwch chi o eiriau lleol neu deuluol (e.e. llysenwau ar leoedd neu fwydydd, ynganiadau lleol, termau bratiaith sy'n unigryw i'ch ysgol/gweithle/cymuned, hen eiriau nad ydyn nhw i'w clywed bellach)
- Detectif geiriau: Holwch rywun sy'n hŷn neu iau na chi: 'Pa eiriau rydych chi wedi eu defnyddio, neu yn dal i'w defnyddio, y gallwn i fod heb glywed amdany'n nhw?' Cofnodwch eu hymatebion.

Ysgrifennwch eich atebion yma

Mae'n amser ysgrifennu!

Ceisiwch lunio cerdd o ddeg llinell, gan gynnwys hyd at bump o 'hen' eiriau a hyd at bump o eiriau 'newydd'. Bydd hyn yn dod â'r gerdd yn fyw ac yn ei gwneud yn unigryw i chi.

Ar goll? Ceisiwch greu llinell yn ymateb i bob un o'r sbardunau hyn:

1. Cyflwynwch hoff air neu air y byddwch chi'n ei defnyddio'n aml yn eich tafodiaith leol.
2. Disgrifiad o sut y byddai rhywun arall (hŷn, iau, neu o ardal wahanol) yn dweud y gair hwnnw.
3. Disgrifiwch eich stryd neu dref gyda gair tafodieithol.
4. Sŵn sydd i'w glywed yn lleol.
5. Cyflwynwch draddodiad lleol.
6. Lluniwch linell am fwyd, gwrthrych neu le, gan gyfeirio ato yn ôl ei enw lleol.
7. Atgof byr yn ymwneud â'ch ardal chi.
8. Ailadroddwch air neu ymadrodd o ddechrau'r gerdd.
9. Beth yn eich ardal leol sy'n gwneud i chi deimlo'n falch?
10. Dychmygwch sut y gallai'r dafodiaith leol esblygu yn y dyfodol.

Ysgrifennwch eich cerdd yma

- Ailadroddwch eiriau os ydyn nhw'n arwyddocaol – gwnewch iddyn nhw ddisgleirio yn eich cerdd.
- Peidiwch â phoeni am gywirdeb gramadegol.
- Byddwch yn chwareus â rhythm ac ailadrodd.
- Chwilio am fwy o ysbrydoliaeth leol? Dewch ar y bws i ganfod casgliad wedi'i guradu o farddoniaeth leol yn y Gymraeg.
- Dangoswch falchder lleol: cynhwyswch eiriau sy'n dangos yr hyn sy'n unigryw neu arbennig am eich ardal.
- Cymysgwch y cenedlaethau: cyfunwch eiriau y byddwch chi'n eu defnyddio â geiriau y bydd pobl hŷn neu iau yn eu defnyddio, er mwyn gweld sut maen nhw'n swnio gyda'i gilydd.

Wedi gorffen?

Postiwch eich cerdd ym mlwch postio'r llyfrgell deithiol er mwyn iddi gael ei harchifo yng nghasgliad y Llyfrgell Farddoniaeth Genedlaethol. Dyma gartref y casgliad mwyaf o farddoniaeth gyfoes yn y DU! Awydd ei recordio yn lle hynny? Dewch i mewn a rhwch gynnig ar y bwth sain!

Tynnwch lun o'ch cerdd a'i rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol gyda'r hashnod **#APoetinEveryPort**.

Ydych chi'n un o feirdd neu awduron y dyfodol? Awydd hawlio'r llwyfan i berfformio eich cerdd? Defnyddiwch y côd QR i ymweld â'r wefan a dysgu mwy, a chyflwyno cais i gystadleuaeth genedlaethol A Poet in Every Port.

Mae angen bardd ar gerdd. Llofnodwch eich gwaith i ddod yn rhan o'r casgliad cenedlaethol.

Enw: _____ Oedran: _____ Côd post: _____

Trwy gyflwyno'r daflen waith hon, rhoddaf ganiatâd i fy ngherdd gael ei chadw yn archif y Llyfrgell Farddoniaeth Genedlaethol.

- Rhoddaf hefyd ganiatâd i fy ngherdd gael ei rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol, iddi gael ei hystyried ar gyfer casgliad curadurol A Poet in Every Port, ac i chi gysylltu â mi os caiff fy ngwaith ei ddewis.

E-bost: _____



Ymunwch â'r Llyfrgell Farddoniaeth Genedlaethol (am ddim)! Defnyddiwch y côd QR i ddysgu mwy. A Poet in Every Port

SOUTH BANK CENTRE

Postiwch eich cerdd yn y blwch